**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU, YR AMGYLCHEDD A THAI (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU PWNC 3 YN FLAENOROL) - DYDD LLUN, 3 TACHWEDD 2025**

COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU Y CYMUNEDAU, YR AMGYLCHEDD A THAI (PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU AR BWNC 3 GYNT) A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DDYDD LLUN, 3 TACHWEDD 2025 AM 16:00

Presennol

Y Cynghorydd JPD Blundell – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| O Clatworthy | C Davies | GC Haines | I Williams |
| MJ Williams | T Wood | | |

Presennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | N Clarke | RJ Collins | W J Kendall |
| J E Pratt | G Walter | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Paul Davies | Aelod y Cabinet dros y Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd |

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd John Spanswick | Arweinydd |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol – y Cymunedau |
| Martin Morgans | Pennaeth Gweithrediadau Dros Dro – Gwasanaethau Cymunedol |
| Paul Smith | Rheolwr y Rhaglen Datgarboneiddio |
| Stuart Baldwin | Rheolwr yr Ymateb i'r Newid yn yr Hinsawdd |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Stephen Griffiths | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd – y Cymunedau |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – y Gwasanaethau Democrataidd |

Datganiadau o Fuddiannau

Y Cynghorydd Norah Clarke – Personol – Eitem 4 – Perchennog cerbyd trydan.
Y Cynghorydd John Spanswick – Personol – Eitem 4 – Aelod o'r teulu'n berchen ar gerbyd trydan.

## 120. Strategaeth Sero Net

| | |
|---|---|
| ` | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelod o'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol a chais am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Argymhellion:**<br><br>1. Bu'r Pwyllgor yn trafod y ffaith fod 71% o allyriadau'r Cyngor yn dod drwy'r gadwyn gyflenwi ac **argymhellodd** y dylid ystyried dyrannu adnoddau ychwanegol i edrych am arbenigedd technegol er mwyn datblygu cadwyn gyflenwi isel mewn carbon a honno'n lleol.<br><br>2. Mynegodd y Pwyllgor bryder ei bod yn annhebygol y câi'r targed o Sero Net ei gyrraedd erbyn 2030 o ystyried y cyllid fyddai ei angen ar gyfer y gost o £109 Miliwn a nodwyd er mwyn gweithredu ac **argymhellodd** y dylai'r Cabinet ailystyried ei ymrwymiad i'r targed o 2030, a gofyn i Lywodraeth Cymru (LIC) adolygu ei tharged ar gyfer Sero Net a darparu canllawiau ar y ffordd i symud ymlaen.<br><br>3. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch yr holiadur ymgynghori yn Atodiad 3, yn benodol bod y cwestiwn cyntaf yn rhoi'r dewis i atebwyr 'Anghytuno'n Gryf' neu 'Anghytuno' ac argymhellodd y dylid ei ail-eirio a chynnwys cwestiwn ynghylch lefel y ddealltwriaeth a'r ymwybyddiaeth o Sero Net oedd yna yn y gymuned ehangach.<br><br>**<u>Gwybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani:</u>**<br><br>4. **Gofynnodd** y Pwyllgor am gopi o unrhyw ohebiaeth gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru neu Lywodraeth Cymru ynghylch yr argymhellion canlynol o'i gyfarfod ar y 7fed o Ebrill 2025:<br><br>***"**Bu'r Pwyllgor yn trafod yr heriau oedd yn wynebu'r Awdurdod o ran cyflawni Carbon Sero Net erbyn 2030 ac argymhellodd y dylid ystyried cysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i ofyn am eglurder ynghylch statws presennol strategaethau i gyrraedd sero net erbyn 2030 yn awdurdodau lleol eraill Cymru ac, yn dilyn hynny, os yw awdurdodau lleol eraill Cymru yn profi heriau tebyg, argymhellodd y Pwyllgor ymhellach y dylid gwneud cais dilynol i ofyn i CLILC roi gwybod i Lywodraeth Cymru am y sefyllfa ac ystyried ymestyn ei strategaeth carbon sero net o 2030 i'w halinio â strategaeth Llywodraeth y DU, i gyrraedd sero net erbyn 2050."* |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 3 Tachwedd 2025 |

## 121. Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelod o'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol a cheisiadau am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Argymhellion:**<br><br>5. Bu’r Pwyllgor yn trafod y ffaith fod pwyntiau gwefru cerbydau trydan (EV) ar gael yn haws a’u bod yn gryfach ac yn gyflymach mewn archfarchnadoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr nag yng nghanol y dref ac **argymhellodd** fod y strategaeth, sydd i gael ei datblygu yn dilyn yr ymgynghoriad, yn canolbwyntio ar yr angen i osod pwyntiau gwefru cerbydau trydan fforddiadwy gyda chapasiti gwefru mwy yng nghanol y dref, ac yn enwedig ym maes parcio'r Rhiw, fel mater o frys.<br><br>6. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid ystyried edrych i mewn i ddichonolrwydd:<br><br>a. Datblygu gorsafoedd gwefru cerbydau trydan ar raddfa fawr i gael eu lleoli ar ystadau diwydiannol; a<br><br>b. Hyfywdra masnachol datblygu gwasanaeth masnachol i ddarparu ein pwyntiau gwefru cerbydau trydan ein hunain, gan ddefnyddio cyflenwr trydydd parti o bosibl, a allai fod yn ffynhonnell refeniw i’r Awdurdod Lleol.<br><br>7. **Argymhellodd** y Pwyllgor ymgynghori â darparwyr ynni er mwyn deall yr heriau posibl o ran capasiti’r grid ar draws y Fwrdeistref os ceir cynnydd sylweddol yn nifer y pwyntiau gwefru cerbydau trydan, mewn cartrefi, busnesau, canol trefi ac ystadau diwydiannol.<br><br>8. **Argymhellodd** y Pwyllgor fod angen i’r ymgynghoriad fynd i’r afael â nifer o broblemau:<br><br>• Y galw am gerbydau trydan ar draws ein cymunedau a pha mor fforddiadwy ydynt. Gallai hyn roi data gwerthfawr fel sail i’r blaenoriaethau wrth ledaenu’r seilwaith fel rhan o strategaeth cerbydau trydan yn y dyfodol<br>• Yr angen i ymgynghori ag ysgolion yn uniongyrchol ar draws y Fwrdeistref ar y posibilrwydd o ddefnyddio ysgolion fel lleoliadau i bwyntiau gwefru.<br>• Roedd angen i’r holiadur roi cyfle i atebwyr ddarparu data lleoliad sylfaenol (e.e. cod post) fyddai o gymorth wrth ddatblygu’r strategaeth cerbydau trydan ac, yn neilltuol, yr heriau posibl |

| | |
|---|---|
| | o ledaenu capasiti gwefru cerbydau trydan ar draws y Fwrdeistref sirol.<br><br>**Gwybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani:**<br><br>9. **Gofynnodd** y Pwyllgor am nifer a chapasiti pwyntiau gwefru cerbydau trydan wrth archfarchnadoedd yn y Fwrdeistref.<br><br>10. Holodd y Pwyllgor a oedd y cyfeiriad at ddatblygu seilwaith cerbydau trydan fel rhan o Adran 106 o ddatblygiadau preswyl yn y Cynllun Datblygu Lleol yn rhywbeth gofynnol ynteu ai cais ydoedd, a **gofynnodd** am fanylion ynghylch y pwerau sydd ar gael i'r Awdurdod Lleol i sicrhau bod seilwaith gwefru cerbydau trydan yn cael ei osod yn effeithlon yn y dyfodol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 3 Tachwedd 2025 |

**122. Diweddariad y Flaenraglen Waith**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo’r Flaenraglen Waith yn Atodiad A yn amodol ar gynnwys y ceisiadau isod, ei fod yn nodi’r daflen Weithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B ac yn nodi y ceid adroddiad am y Flaenraglen Waith, fel y byddai wedi ei chymeradwyo gan y Pwyllgor, yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol.<br><br>Gofynnodd y Pwyllgor am y canlynol:<br><br>a. Dod ag adroddiad Neuadd Tref Maesteg oedd wedi ei drefnu ar gyfer 23 Chwefror ymlaen i gyfarfod 8 Rhagfyr, yn lle adroddiad y Pafiliwn Mawr.<br><br>b. Trefnu bod yr adroddiad am Adfywio Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr oedd wedi ei gynnwys yn y Flaenraglen Waith yn cael ei ystyried cyn gynted ag y bo modd.<br><br>c. Adroddiad ar ansawdd dŵr a llygredd, capasiti Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Pen-y-bont a chynlluniau i gwrdd â'r galw yn y dyfodol oherwydd cynnydd sylweddol yn nifer y tai a gynlluniwyd ar nifer o ddatblygiadau newydd, a gwahodd Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i fod yn bresennol. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 3 Tachwedd 2025 |

## 123. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 3 Tachwedd 2025 |

I wylio dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 19:10.